# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Mawrth 2020

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@cynulliad.cymru

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Papur i'w nodi

(13.30-13.35)

**2.1 Papur i'w nodi 1: Adroddiad ar Berfformiad Rhwydwaith Tramor Llywodraeth Cymru - Chwarter 3 2019/20**

(Tudalennau 1 - 6)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.35)

## 4 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi at y Cadeirydd ynghylch ymgysylltiad parhaus â'r deddfwrfeydd datganoledig - trafod yr ymateb

(13.35-14.05)

## 5 Ymchwiliad Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr UE Tŷ'r Arglwyddi i gymorth gwladwriaethol - trafod yr ymateb

(14.05-14.20)

## 6 Gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol

(14.20-14.30) (Tudalennau 7 - 21)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Adroddiad ar Berfformiad Rhwydwaith Tramor Llywodraeth Cymru**

Mae'r adroddiad canlynol ar berfformiad yn cwmpasu trydydd chwarter 2019 / 20. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar fetrigau allweddol ac allbynnau naratif yr un swyddfa ar hugain sy'n perthyn i Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd mae gan y rhwydwaith o swyddfeydd tramor y pum mesur canlynol o allbynnau:

- **Cynrychioli Cymru mewn digwyddiadau / cynadleddau / fforymau sy'n canolbwyntio ar Fusnes** - Bydd y swyddfeydd yn nodi cyfleoedd i fynychu digwyddiadau er mwyn cyflwyno negeseuon Cymreig allweddol i dargedu cynulleidfaoedd busnes a lluosyddion er mwyn hyrwyddo cyfleoedd buddsoddi a masnachu. Gall digwyddiadau o'r fath gynnwys digwyddiadau siambrau busnes neu gynadleddau yn canolbwyntio ar sectorau.

- **Ymgysylltu â rhiant gwmnïau / Pencadlys buddsoddwyr cyfredol.** Gorchwyl y swyddfeydd yw meithrin a chryfhau'r berthynas â phencadlysoedd buddsoddwyr rhyngwladol cyfredol yng Nghymru. Gweithio mewn dull cydgysylltiedig gyda'r rheolwr cyfrifon rhanbarthol dynodedig i ddatblygu'r berthynas er mwyn nodi cyfleoedd ail-fuddsoddi posibl a chynlluniau'r dyfodol ar gyfer Cymru.

- **Ymholiadau mewnfuddsoddi dilys y gellir eu cael yn y farchnad** – Trwy ddatblygu gweithgarwch datblygu busnes a gweithio gyda phartneriaid a lluosyddion, bydd y swyddfeydd yn nodi a chael gafael ar gyfleoedd mewnfuddsoddi sydd â'r gallu i gyflawni prosiectau a fydd yn creu swyddi yng Nghymru yn y tymor byr a'r hirdymor.

- **Rhoi cymorth allforio sylweddol i gwmnïau Cymru** - Trwy swyddfeydd gwybodaeth yn y farchnad, gellir nodi cyfleoedd masnachu rhyngwladol ar gyfer cwmnïau yng Nghymru, sydd â'r potensial i sicrhau cytundebau allforio sicr. Gall natur y cymorth amrywio o drefnu cyflwyniadau i asiantau a dosbarthwyr rhanbarthol i gymorth uniongyrchol neu ymweliadau datblygu busnes wedi'u teilwra mewn rhanbarth penodol.

- **Rhoi cymorth uniongyrchol yn y farchnad i gyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru** - Bydd cylch gwaith gan swyddfeydd i hyrwyddo'n rhagweithiol flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru o fewn tiriogaeth berthnasol. Gall enghreifftiau o'r fath gynnwys cymorth uniongyrchol i brifysgolion Cymru wrth recriwtio myfyrwyr a sefydlu partneriaethau ymchwil trwy hyrwyddo Cymru fel lleoliad i dwristiaid.

Mae targedau'r swyddfeydd unigol wedi'u gosod a'u halinio yn erbyn allbynnau hanesyddol o'r rhanbarth, y ffocws daearyddol ar fasnachu a buddsoddi, yr hyn sy'n ddisgwyliedig fel cyfran o allbwn cyfan y DU a pherthnasedd i sectorau allweddol Cymru.

Allbynnau'r Rhwydwaith

| Allbwn<br>Hydref 2019 i Ionawr 2020 | Targed Rhwydwaith Blynyddol | Cyflawnwyd yn Ch1 a Ch2 yn 2019/20 | Cyflawnwyd yn Ch3 2019/20 | Y Ganran a Gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|
| Cynrychioli Cymru mewn digwyddiadau / cynadleddau / fforymau sy'n canolbwyntio ar fusnes | 310 | 175 | 153 | 106% |
| Ymgysylltu â rhiant gwmnïau /Pencadlysoedd buddsoddwyr cyfredol | 182 | 53 | 57 | 60% |
| Yr ymholiadau mewnfuddsoddi dilys y gellir eu cael yn y farchnad | 240 | 136 | 47 | 76% |
| Rhoi cymorth allforio sylweddol i gwmnïau Cymru | 360 | 147 | 135 | 78% |
| Rhoi cymorth uniongyrchol wrth farchnata i gyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru. | 135 | 89 | 38 | 94% |

Mae pob swyddfa'n cynnal llif o ymholiadau am gymorth i fasnachu a mewnfuddsoddi. Mae sensitifrwydd masnachol ynghlwm wrth hyn ac ni ellir datgelu manylion cwmnïau heb eu caniatâd.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau allweddol ac allbynnau ar draws y rhwydwaith o swyddfeydd yn y cyfnod o fis Hydref tan Ionawr 2020.

**Ewrop**

- Mae'r tîm yn parhau i hyrwyddo'n ddiwyd y galluoedd diogelwch Seiber sydd gan Gymru gan gyflwyno ac arddangos y sector mewn digwyddiadau diwydiant allweddol, megis FIC yn Ffrainc a CyberSec yng Ngwlad Pwyl. Mae'r gwaith dilynol yn parhau gyda chwmnïau Ewropeaidd yn edrych am safle yn y DU
- Mae tîm Ewrop wedi arwain ar bresenoldeb Cymru yn Arddangosfa Gwyddorau Bywyd Medica yn Dusseldorf ac wedi cynorthwyo dros 40 o gwmnïau o Gymru i hyrwyddo eu cynnyrch a'u gwasanaethau i brynwyr rhyngwladol trwy hwyluso cyflwyniadau a threfnu cyfarfodydd.
- Mae'r tîm wedi gweithio gyda Gweithgynhyrchu Cyfarpar Gwreiddiol (OEM) Ewropeaidd yn y sector awyrofod a moduro ac wedi croesawu uwch-swyddogion gweithredol ar ymweliadau deuddydd â Chymru i edrych ar gyfleoedd i sefydlu canolfan ymchwil.

- Mae'r tîm ar draws y swyddfeydd Ewropeaidd yn parhau i gydweithredu â swyddogion yr Adran Masnach Ryngwladol (DIT) ac un enghraifft o gydweithio yw'r gynrychiolaeth yng nghinio blynyddol y DIT yn yr Iseldiroedd lle'r oedd gan Gymru gynrychiolaeth gref ac y cafwyd cyfle i ymgysylltu â buddsoddwyr cyfredol sy'n awyddus i ehangu eu presenoldeb yng Nghymru.

- Cynrychiolodd y tîm Gymru yng nghynhadledd Ocean Energy Europe gan gynorthwyo 12 cwmni o Gymru fel rhan o genhadaeth fasnach ehangach.
- Mae'r holl dimau wrthi'n ymgysylltu'n ddyfal â buddsoddwyr ar draws yr holl sectorau allweddol yn cynnwys bwyd a diod er mwyn deall cynlluniau'r dyfodol a'r cyfleoedd i ail-fuddsoddi.
- Mae'r rhwydwaith wedi darparu'r cyfranogiad Cymreig yng nghynhadledd Addysg Uwch Siambr Fasnach Prydain ac Iwerddon ar ddyfodol partneriaeth ymchwil y DU ac Iwerddon.
- Mae'r tîm wedi cynnal digwyddiad brecwast ar y cyd gydag Adran Masnach Ryngwladol y DU a Business Innovation Dulyn i hyrwyddo datblygiad Banc Cymru, ac i arddangos dau gwmni Cymreig allweddol.
- Rhoddodd y tîm gymorth sylweddol i nifer o gwmnïau bwyd a diod o Gymru a aeth i arddangosfa Anuga yn yr Almaen trwy hwyluso cyflwyniadau i ddosbarthwyr allweddol. Ar ben hynny, mae ymholiad wedi datblygu gyda chynhyrchydd bwyd o'r Almaen sy'n chwilio am leoliad yn y DU a bellach mae Cymru'n lleoliad a ffefrir.
- Trefnodd y tîm yn SemiCon Europa bresenoldeb Cymru gan gydlynu noson rwydweithio Lled-dargludyddion Cyfansawdd ym Mhreswylfa'r Conswl Prydeinig ym Munich. Cafwyd cyflwyniadau gan glwstwr o gwmnïau o Gymru ac mae perthynas newydd ar y gweill gyda phrosiectau amlinellol eisoes wedi datblygu.
- Aeth y tîm i gynhadledd awyrofod flynyddol ADS yn Toulouse, lle dathlwyd sefydlu Airbus 50 mlynedd yn ôl. Rhoddwyd cymorth i chwe chwmni o Gymru fynychu gyda'r bwriad o gynyddu allforion.
- Mae'r tîm wedi sicrhau prosiectau mewnfuddsoddi gan gwmnïau yn y sector diogelwch seiber a Fintech, gan greu dros 45 o rolau newydd yng Nghymru.
- Mae'r tîm wedi cynorthwyo nifer o gwmnïau Fintech Cymreig yng nghynhadledd Fintech Connect yn Llundain. Roedd yn llwyfan cadarn ar gyfer arddangos cryfderau'r sector yng Nghymru i gynulleidfa ryngwladol.

**Y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (MENA)**

- Mae'r tîm yn rhanbarth MENA yn parhau i ganolbwyntio ar roi cymorth allforio i gwmnïau o Gymru gan gynorthwyo naw cwmni ar ymweliad masnach i Oman a Kuwait.

- Rhoddodd y tîm gymorth uniongyrchol i ddeg cwmni bwyd a diod o Gymru ar ymweliad datblygu masnach i Qatar gan hwyluso digwyddiad cwrdd â phrynwyr, ymweliadau â siopau a chinio ar gyfer rhwydweithio.
- Bu’r tîm yn cefnogi ymweliadau y farchnad allforio ar gyfer 21 o gwmnïau a leolir yng Nghymru i sioe fasnach y gadwyn cyflenwi ynni yn Abu Dhabi.
- Rhoddodd y tîm gymorth  ymarferol i Croeso Cymru a Maes Awyr Caerdydd mewn digwyddiad gwerthiant gan Qatar Airways yn Doha gan hyrwyddo Cymru a’r llwybr teithio o Doha i Gaerdydd i deithio i’r sioe fasnach yn Qatar.

- Mae’r tîm yn gweithio gyda chwmni rhanbarthol yn Qatar ar y posibilrwydd o ddatblygu seilwaith yn ymwneud â hyb logisteg ym maes awyr Caerdydd.
- Cynorthwyodd y tîm Brifysgol De Cymru wrth iddyn nhw gynnal derbyniad rhwydweithio’r DU yng nghampws Dubai yn ystod Sioe Awyr Dubai.
- Mae’r tîm wedi gweithio gyda chwmni monitro amgylcheddol a leolir yng Nghymru sydd wedi sicrhau contractau yn Qatar yn sgil cyflwyniadau i ddarparu synwyryddion monitro ansawdd aer.

**Gogledd America**

- Yn dilyn arddangosfa MRO Americas 2019 yn Atlanta, mae’r tîm wedi cynorthwyo tri chwmni a leolir yng Nghymru i sicrhau busnes allforio gwerth dros £3.3 miliwn
- Mae’r tîm wedi gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a sicrhau cenhadaeth fewnol o sefydliadau gweithgynhyrchu a thechnoleg, creadigol a gwyddorau bywyd o Nashville i ymweld â safleoedd allweddol yng Nghymru er mwyn ffurfio perthynas fasnachol.
- Mae’r tîm wedi darparu cymorth uniongyrchol i gwmni gwasanaethau ariannol Cymreig ar gynyddu eu presenoldeb yn UDA trwy gyflwyniadau uniongyrchol.
- Mae aelodau’r tîm wedi hwyluso cyflwyniadau rhwng Prifysgol Alabama yn Birmingham a’r Urdd ar gyfer teithiau cyfnewid. Bwriedir cynnal ymweliadau diwylliannol pellach yn 2020.
- Mae gwaith ar y gweill gydag Adran Addysg Georgia ar gynnwys y Gymraeg yn eu hopsiynau *Seal of Bi-literacy* ar gyfer myfyrwyr ysgol uwchradd, a rhaglenni i gyflwyno’r Gymraeg a’i diwylliant i ragor o athrawon a myfyrwyr.
- Mae’r tîm wedi sicrhau trywydd arwyddocaol i ddatblygu canolfan Ymchwil a Datblygu gyda buddsoddwr cyfredol a Chymru yw’r lleoliad a ffefrir. Mae cyfanswm costau’r prosiect yn werth mwy na £3 miliwn gyda’r potensial o greu dros 100 o rolau newydd.
- Mae’r tîm yn parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo’r Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yng Nghymru ac mae cwmni o UDA wedi cadarnhau ei fwriad i sefydlu presenoldeb yng Nghymru.

- Mae'r tîm wedi cyflwyno a chynrychioli Cymru mewn arddangosfeydd allweddol a chynadleddau yn ystod y chwarter megis Uwchgynhadledd *Women in Economic Development*, Finovate 2019, Insurtech Connect, TechCrunch Disrupt ac Insuretech Connect.
- Mae'r tîm yn parhau i estyn allan a meithrin perthynas gyda buddsoddwyr cyfredol o Gymru.
- Cynrychiolodd y tîm Gymru a rhoi cyflwyniadau yng nghynhadledd Energy3 yn Halifax. Dyma gynhadledd flaenllaw ym maes ynni morol, lle'r oedd siaradwr o Ynni Môr Cymru yn bresennol a hyrwyddodd y tîm leoliad profi ynni'r llanw ar arfordir Cymru. Arweiniodd hyn at nifer o sgyrsiau dilynol, sy'n dal i fynd rhagddynt.

**Tsieina**

- Mae'r tîm yn gweithio gyda chwmni technoleg drydanol pwysig yn Tsieina sydd wedi amlinellu'r bwriad i ddod i Gymru a sefydlu JV gyda chwmni cyfredol.
- Mae'r tîm yn cynorthwyo nifer o golegau a Phrifysgolion yng Nghymru yn y *Sino-Britain Vocational Education International Exchange and Cooperation Forum* yn Beijing.
- Mae'r tîm yn gweithio gyda llywodraeth daleithiol ar ddirprwyaeth fusnes arfaethedig i'r DU yn 2020 lle bydd gan Gymru ran flaenllaw. Mae'r ffocws ar y sectorau digidol, gwyddorau bywyd ac addysg.
- Mae'r tîm yn gweithio gyda'r *UK China Science & Innovation Platform* sydd bellach wedi mynegi diddordeb mawr mewn sefydlu canolfan ddeor ar y môr yng Nghymru.
- Mae'r tîm yn gweithio gyda dosbarthwr rhanbarthol a grŵp masnachu ar allforio bwyd a diod o Gymru, yn enwedig cynhyrchion cig.
- **Mae'r tîm wedi gwneud cyflwyniadau ac wrthi'n cefnogi cydweithredu rhwng Prifysgol Technoleg Henan** a phrifysgol yng Nghymru ar gyfrifiadureg gydag ymweliad wedi'i gynllunio ar gyfer nes ymlaen yn 2020

**Japan**

- Llwyddwyd i wneud llawer o waith adeg Cwpan Rygbi'r Byd i godi proffil Cymru fel cyrchfan dwristaidd, addysg a busnes. Cynhaliodd y tîm gyfres o ddigwyddiadau gan gefnogi cenhadaeth fasnach o gwmnïau o Gymru.
- Trwy ymweliad y Prif Weinidog, llwyddodd y tîm i drefnu nifer o gyfarfodydd gydag uwch swyddogion gweithredol i drafod cynlluniau buddsoddi cyfredol a'r posibilrwydd o ehangu gweithrediadau cyfredol yng Nghymru. Mae sawl perthynas newydd wedi datblygu gyda chwmnïau seiber a lled-ddargludyddion yn y rhanbarth.

- Bu'r tîm yn cynorthwyo nifer o gwmnïau bwyd a diod mewn arddangosfeydd a ffeiriau gydol pencampwriaeth cwpan y byd.
- Bu'r tîm a'u cydweithwyr yn cynnal gweithgareddau'r *Welsh Dome* yn Shinjuku a ddenodd nifer fawr o ymwelwyr a chodi proffil Cymru.
- Mae'r tîm wedi bod wrthi'n hybu proffil Cymru ymhlith 5,000 o ddilynwyr newydd ar Twitter, ac mae'r nifer hwn yn parhau i godi yn dilyn cwpan rygbi'r byd.
- Mae trafodaethau ar y gweill gyda dau ranbarth yn Japan sy'n awyddus i ddatblygu perthynas â Chymru ac adeiladu rhaglenni gwaddol yn dilyn cwpan y byd.
- Trwy weithgaredd uniongyrchol y tîm rhoddwyd sylw arbennig i sector lled-ddargludyddion Cymru yng nghyhoeddiad technegol diweddaraf Japan. Mae hyn wedi creu sawl cyswllt newydd.
- Mae'r tîm wedi cynorthwyo cwmni diogelwch Seiber Cymreig sydd bellach yn cyflenwi cynhyrchion i'r farchnad.
- Gyda chydweithwyr, darparodd y tîm y genhadaeth fasnach fwyaf erioed gan Gymru yn Japan yn ystod y chwarter ac mae gweithgarwch dilynol ar y gweill gyda dosbarthwyr ac asiantau yn y rhanbarth.
- Mae dau fuddsoddwr cyfredol o Japan yng Nghymru wedi amlinellu buddsoddiadau arfaethedig yng Nghymru yn ystod 2020.

**<u>India</u>**

- Mae'r tîm wedi hyrwyddo'n ddyfal sectorau allweddol yng Nghymru yn cynnwys y gynhadledd ddiweddar yn y DU - Space. Llwyddodd y tîm i gael dirprwyaeth o saith o fusnesau o India i ymweld â Chymru gan ehangu'r rhaglen er mwyn egluro'r cyfleoedd sydd ar gael yn y rhanbarth.
- Mae'r tîm yn gweithio gyda nifer o fuddsoddwyr cyfredol o India yng Nghymru er mwyn cefnogi cynlluniau ehangu a darparu cymorth uniongyrchol lle bo modd.
- Bu'r tîm yn cefnogi'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymweliad ag India a oedd yn canolbwyntio ar arddangos y sector gofal iechyd yng Nghymru a chyfleoedd i recriwtio gweithwyr iechyd proffesiynol.
- Trefnodd y tîm ddigwyddiad mewnfuddsoddi yn Kolkata. Roedd hyn mewn partneriaeth â'r Adran Masnach Ryngwladol lle cyflwynwyd cynnig Cymru i nifer o gwmnïau o India a oedd â bwriad amlinellol o fuddsoddi yn y DU.
- Bu'r tîm yn cynorthwyo cwmni sy'n prysur ddatblygu i ymweld â Chymru a chwilio am leoliadau posibl fel y cam cyntaf i mewn i'r DU, ac mae'r ymholiad yn parhau dan drafodaeth gyda Chymru wedi'i nodi fel y lleoliad a ffefrir.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

d i'r Agenda

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon